**Cofnodion o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2020, (yn electronig drwy Microsoft Teams a'i ffrydio'n fyw ar y we)**

| **Yn Bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Jyoti Atri | (JA) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RB-W) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Eleri Davies | (ED) | Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) |
| Andrew Jones | (AJ) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro y Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| Alison Ward | (AW) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant |
| Sian Bolton | (SB) | Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Chyfarwyddwr Diogelwch Cleifion Gwelliant Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Dros Dro Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| | | |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:00*

**PHW 200/2020 Croeso ac Ymddiheuriadau**

**Nododd** y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan esbonio'r angen i barhau â'r cyfarfodydd rhithwir, sy'n canolbwyntio ar agenda sy'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd a staff drwy ddolen ffrydio byw ar y wefan.

Aeth JW ati i grynhoi rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol dros: ddatblygu a chyfeirio strategaethau; meithrin a chynnal partneriaethau strategol; pennu'r archwaeth am risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad. Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y gallai pob aelod o staff ddod i'r gwaith a bod yn nhw eu hunain, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath.

Nododd JW fod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd, y mae'r manylion i'w cael ar y wefan. Esboniodd hefyd, yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd i welliant parhaus, fod y Bwrdd wedi addasu agenda'r cyfarfodydd, er mwyn gwneud y gorau o'r amser a dreulir ar sicrwydd a chymeradwyo. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn amrywio am yn ail fis, gydag agenda lawn un mis ac agenda fyrrach, ar bwnc penodol y mis dilynol; byddai'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar COVID-19 a'r paratoadau ar gyfer gadael yr UE ar 1 Ionawr 2021.

**PHW 201/2020 Datgan Buddiannau**

Datganodd JW ei bod wedi'i phenodi i Fwrdd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, ac y byddai'r penodiad yn dechrau ar 4 Ionawr 2021. Nid wnaed unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr.

**PHW 202/2020 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

**PHW 202.1/2020 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Yn ei hadroddiad ar lafar i'r Bwrdd, tynnodd TC sylw at yr hyn a ganlyn:

- Diweddariad arfaethedig i system labordai System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru (WLIMS) gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) a gynhaliwyd dros benwythnos 11/13 Rhagfyr. Cymerodd hyn yn hwy na'r disgwyl ac roedd wedi peri oedi o ran adrodd ar tuag 11,000 o brofion COVID-19 positif a gasglwyd gan y Labordai Goleudy. Atgoffodd TC y Bwrdd fod NWIS yn rheoli WLIMS a dywedodd nad oes gan Iechyd Cyhoeddus Cymru unrhyw fethiannau o ran systemau neu brosesau adrodd y mae angen mynd i'r afael â nhw.

  Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi hysbysu'r holl randdeiliaid, a'r cyhoedd, ynghylch y gwaith arfaethedig i ddiweddaru'r system, gan ddefnyddio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r dangosfwrdd dyddiol, am nifer o ddiwrnodau cyn i'r gwaith cynnal a chadw gael ei wneud. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gwaith diweddaru a'r effaith debygol ar y systemau adrodd. Rhoddodd TC sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch argaeledd canlyniadau positif i'r prawf COVID-19 drwy gydol y cyfnod dan sylw, gyda'r cysylltiadau â chleifion yn parhau yn ôl yr arfer.

  Gwnaeth TC sylwadau ynghylch nifer o gamgymeriadau yn yr adroddiadau cynnar yn y wasg, a'r camau a gymerwyd, a'r camau sydd ar y gweill, i gywiro'r cofnod cyhoeddus. Roedd NWIS hefyd yn bwriadu cyhoeddi datganiad a byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi datganiadau pellach, pe bai angen, yn ystod y dydd.

  Ychwanegodd AJ fanylion ynghylch y paratoadau a wnaed cyn y gwaith diweddaru i sicrhau bod y data'n cael eu llwytho a'u dadansoddi mewn modd amserol ar ôl iddynt ddechrau llifo eto. Yn y pen draw, digwyddodd hyn ar noswaith 15 Rhagfyr, gyda'r data'n cael eu dadansoddi drwy gydol 16 Rhagfyr, a chafodd y canlyniadau eu llwytho i'r dangosfwrdd cyhoeddus ar 17 Rhagfyr. Adleisiodd AJ gadarnhad TC nad oedd hyn wedi cael effaith niweidiol ar unrhyw un â chanlyniad positif.

  Dywedodd SG fod y gwaith diweddaru wedi'i gynllunio, gan wneud sylw ynghylch pwysigrwydd cymryd camau brys i gywiro unrhyw gam-adrodd, o gofio effaith yr adroddiadau anghywir yn y wasg yn gynharach yn y dydd ar enw da y sefydliad. Estynnodd ei llongyfarchiadau i TC a'r tîm am eu hymateb diymdroi.

  Adleisiodd AW sylwadau SGs ynghylch yr effaith ar enw da'r sefydliad; myfyriodd ar yr her o gyfathrebu'n effeithiol â llywodraeth leol a phartneriaid eraill, o gofio pa mor gyflym mae'r agenda yn newid.

- Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru: *Cynllun rheoli'r coronafeirws: lefelau rhybudd yng Nghymru*; mae hyn yn nodi pedair lefel o gyfyngiadau, gyda throthwyon ac ymyriadau cysylltiedig ar gyfer pob un. Nododd TC

awgrym Llywodraeth Cymru y bydd Cymru yn symud i Lefel 4 ar 28 Rhagfyr 2020.

- Goblygiadau posibl cynlluniau rhai Byrddau Iechyd i ohirio gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys i'r rhaglenni sgrinio cenedlaethol. Cyfeiriodd TC at y camau a gymerwyd i ohirio ac ailgychwyn pump o'r rhaglenni, gan nodi'r angen i gael mynediad at wasanaethau asesu, diagnosteg a thriniaeth. Byddai'n diweddaru'r Bwrdd wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.

  **CAMAU GWEITHREDU: TC**

- Gwaith parhaus ynghylch agenda iechyd y boblogaeth; gofynnodd TC i MB amlinellu'r gwaith hwnnw. Cyfeiriodd at: barhad yr arolygon ymgysylltu bob pythefnos; cymariaethau rhyngwladol o'r dulliau o ymdrin â chyfyngiadau COVID-19 a'r paratoadau ar gyfer cyfnod y Nadolig; yr asesiadau effaith ar iechyd sydd yn yr arfaeth; y ffocws cyffredinol ar iechyd a llesiant meddyliol, yn enwedig ymysg pobl ifanc, cyflogaeth ac effaith COVID-19 ar grwpiau sy'n agored i niwed. Byddai'r olaf yn cynnwys edrych ar bob agwedd ar drais, gan gynnwys trais yn erbyn menywod a merched.

Cydnabu JR y pwysau y mae gwasanaethau sgrinio'n eu hwynebu, ond tynnodd sylw at y niwed ychwanegol iddynt yn sgil gohirio rhaglenni ymhellach.

Diolchodd SG i MB am y wybodaeth ddiweddaraf am iechyd y boblogaeth; cyfeiriodd at yr adroddiad diweddar *Build Back Fairer: The COVID-19 Marmot Review,* a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, a nododd berthynas rhwng COVID-19 ac amddifadedd. Gofynnodd SG a oedd yr Adroddiad yn cynnwys data o Gymru neu a oedd darn tebyg o waith wedi'i gynllunio ar gyfer Cymru. Cytunodd MB i adolygu'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn yr arolwg Marmot diweddaraf. Amlinellodd hefyd y gwaith sydd wedi'i gynllunio yng Nghymru, ar sail gwaith WERSi.

**CAMAU GWEITHREDU: MB**

**Penderfynodd** y Bwrdd **dderbyn** y wybodaeth a rannwyd a **chymryd sicrwydd** o'r camau sydd ar y gweill yn erbyn pob un o'r eitemau a drafodwyd.

**PHW 203/2020 Diweddariad Cyffredinol ar y Coronafeirws Newydd COVID-19**

Dywedodd JW y byddai'r eitem hon bellach yn cynnwys pob agwedd ond un ar yr agenda COVID-19; byddai'r gwariant ariannol sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn parhau i ffurfio rhan o'r adroddiad cyllid arferol.

Strwythurodd AJ y diweddariad fel a ganlyn:

**<u>Diweddariad ar y Sefyllfa</u>**

Defnyddiodd AJ graffiau i ddangos y cynnydd yn nifrifoldeb y sefyllfa: roedd cyfraddau'r achosion a chanrannau'r profion positif 7 niwrnod, ynghyd â'r cynnydd yn nifer y cleifion mewn ysbytai, oll yn dangos nad oedd yr enillion a gafwyd yn sgil y cyfnod atal byr wedi'u cynnal. Nododd gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch y cyfyngiadau pellach ar 4 ac 11 Rhagfyr; bellach, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu gosod cyfyngiadau ychwanegol mawr dros gyfnod y Nadolig ac o 28 Rhagfyr ymlaen.

Pwysleisiodd AJ bwysigrwydd atgyfnerthu'r negeseuon allweddol; hylendid dwylo; cadw pellter cymdeithasol; gweithio o gartref lle bo hynny'n bosibl; gwisgo masg wyneb; a hunanynysu lle bo hynny'n angenrheidiol, wedi'u cefnogi gan y system Profi, Olrhain a Diogelu.

Cydnabu AW y pwysau ar ysbytai a gwasanaethau gofal iechyd rheng flaen eraill; pwysleisiodd natur holistaidd y galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y system gyfan yn wynebu galw cynyddol yng nghyd-destun capasiti cyfyngedig; roedd y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn ceisio penodi staff ychwanegol prin gyda sgiliau tebyg.

**<u>Profi, Olrhain a Diogelu</u>**

Cadarnhaodd AJ fod y Fframwaith Gweithredu Profi, Olrhain a Diogelu yn cael ei ddiwygio, ac yn cael ei ailgyhoeddi ar 9 Rhagfyr. Roedd hyn yn ychwanegu eglurder ynghylch rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r cyrff partneriaid ar lefelau rhanbarthol a lleol. Dylai ei weithrediad leddfu'r pwysau ar staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, y mae pob un ohonynt yn parhau i ddarparu cymorth arbenigol i'r system yn wyneb y cynnydd dyddiol yn y galw. Byddai'r Tîm Gweithredol yn parhau i oruchwylio effaith y gwaith o'i weithredu.

Rhoddodd ED ddiweddariad am y sefyllfa ynghylch yr amrywiolynnau COVID-19 newydd: yr amrywiolyn minc sy'n gysylltiedig â Denmarc ac amrywiolyn arall, a ganfuwyd yn bennaf yn ne-ddwyrain Lloegr, ond gyda nifer fach o achosion wedi'u canfod yng Nghymru hefyd.

Adroddodd ED hefyd ynghylch y newidiadau i'r cyfnod hunanynysu, a weithredwyd o 10 Rhagfyr 2020 yn dilyn cytundeb ledled y DU.

Yna aeth JB ymlaen i roi diweddariad am y 3 labordy rhanbarthol, y ffaith bod 5 o blith 6 o'r labordai gwib yn weithredol a throsglwyddiad y Labordy IP5 yng Nghasnewydd. Canmolodd y tîm sy'n gysylltiedig â chomisiynu'r cyfleuster hwn, gan nodi pa mor gyflym y cafodd ei gyflawni.

Holodd SG ynghylch effaith profi llif unffordd; dywedodd JB fod hyn yn cael effaith gyfyngedig hyd yn hyn ond ei fod yn disgwyl iddo gynyddu.

Myfyriodd DE ar y dulliau presennol o anfon negeseuon a'r posibilrwydd o adolygu'r rhain, er mwyn gwneud y mwyaf o'r gwaith ar ddeall ymddygiad. Cytunodd TC i ystyried y mater hwn ymhellach, gan edrych ar rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o rwydwaith anfon negeseuon ehangach.

**CAMAU GWEITHREDU: TC**

**<u>Diweddariad ar Frechu</u>**

Wrth gyflyno'r adroddiad, eglurodd AJ rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn rhaglenni brechu, gan gynnwys y rhaglen frechu COVID-19. Roedd y rôl arweinyddiaeth a chefnogi systemau hon yn cynnwys: darparu cyngor arbenigol; cadw gwyliadwriaeth ar glefydau a nifer y rheini sy'n cael y brechlyn; hyfforddi ac e-ddysgu; canllawiau dilyniannol a chyngor clinigol; ymgysylltiad defnyddwyr y gwasanaethau. Cyfeiriodd AJ at y papur penodol ar y rhaglen frechu COVID-19 (a baratowyd gan dîm y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal Drwy Frechlyn), a oedd yn canolbwyntio ar y broses frechu gyffredinol, rôl arweinyddiaeth a chefnogi systemau penodol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y rhaglen frechu COVID-19, a chyfrifoldeb y byrddau iechyd dros drefnu a chyflawni'r rhaglen yn weithredol. Roedd gan Fwrdd Rhaglen Frechu Covid, a sefydlwyd o dan arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru, y rôl o gadw trosolwg mewn perthynas â chymorth a chyngor polisi, ynghyd â monitro nifer y bobl sy'n cael y brechlyn a sut y mae'n cael ei ddarparu. Cydnabu AJ gyfraniad mawr tîm y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal drwy Frechlyn a staff eraill ICC yn y gwaith paratoi, a wnaed yn gyflym ac a amlygodd yr hyn a ganlyn:

- Y gwaith cynllunio ymlaen llaw a oedd wedi galluogi gweithredu'r rhaglen frechu'n gyflym, ar ôl ei hawdurdodi;
- Llywodraeth y DU yn prynnu cyfanswm o saith o frechlynnau, gyda'r broses o frechu yn defnyddio brechlyn Pfizer gan ddechrau ar 8 Rhagfyr;
- Y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn nodi'r grwpiau blaenoriaeth;
- Er bod y brechlyn yn effeithiol o ran trin COVID-19 symptomatig, nid oedd unrhyw gadarnhad eto ei fod yn atal y feirws rhag trosglwyddo;
- Rhoddwyd dros 6000 o ddosau yn yr wythnos gyntaf, gyda'r nod o gyrraedd 15,000 y dydd yn y pen draw;

Diolchodd JW i AJ am y diweddariad llawn gwybodaeth hwn; gofynnodd i RB-W ddilyn hynny gyda gwybodaeth am y cynlluniau brechu ar gyfer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhaodd RB-W ei bod yn gweithio'n agos gyda'r byrddau iechyd i sicrhau mynediad at y systemau archebu a'r apwyntiadau. Dywedodd hefyd, wrth i frechlynnau eraill ddod ar gael, y byddai'r rhaglen yn dod yn rhaglen fewnol.

Gofynnodd KE am eglurder ynghylch rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran monitro nifer y bobl sy'n cael y brechlyn; cadarnhaodd AJ fod y rôl yn gysylltiedig â darparu gwybodaeth ynghylch cadw gwyliadwraeth ar glefydau a nifer y bobl sy'n cael y brechlyn (yn debyg i'r ffliw), i'r holl bartneriaid ac yn benodol i Fwrdd Rhaglen Frechu Covid.

Diolchodd JW i AJ, ED a JB am eu diweddariadau manwl; gofynnodd i'w chydweithwyr ar y Bwrdd nodi unrhyw faterion ychwanegol i'w cynnwys yn yr adroddiad COVID-19 integredig hwn.

**CAMAU GWEITHREDU: Pawb**

**Penderfynodd** y Bwrdd **gymryd sicrwydd** o'r holl gamau a nodwyd fel rhan o'r drafodaeth.

**PHW 204/2020 Diweddariad ar Effaith Gadael yr Undeb Ewropeaidd**

Wrth gyflwyno'r diweddariad hwn, nododd AJ mai dyma'r cyfle olaf i'r Bwrdd drafod y mater, cyn i'r DU adael yr UE ar 1 Ionawr 2021. Mae'r risgiau a'r dulliau lliniaru yn dod o dan Risg Strategol 3 ('darparu...gwasanaethau heintiau a sgrinio') a chyfeiriodd AJ atynt drwy gydol ei ddiweddariad.

Atgoffodd AJ y Bwrdd bod y rhaglen Pontio o'r UE wedi'i sefydlu a oedd yn adrodd yn rheolaidd i'r Tîm Gweithredol. Roedd y gwaith sylweddol a wnaed yn cynnwys datblygu cynlluniau cychwyn i sicrhau parhad busnes, pe bai hynny'n angenrheidiol, wedi'u llywio gan y negodiadau parhaus. Bu parhad y gadwyn gyflenwi yn nodwedd allweddol, ac felly hefyd y cyfathrebu â'r staff.

Ar lefel genedlaethol Cymru, cadarnhaodd AJ gynrychiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y Grŵp Arweinyddiaeth ar Bontio o'r UE; gan fod Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus wedi cymryd yr awenau ar gyfer y llif gwaith Diogelwch Iechyd a oedd yn adrodd i'r prif grŵp, ac roedd hwn wedi canolbwyntio ar ddiweddaru'r asesiadau risg perthnasol. Roedd y brif risg yn ymwneud â chadw gwyliadwriaeth a rhybuddion, o gofio bod y DU yn rhan o system adrodd yr UE ar hyn o bryd. Roedd yr uchelgais yn canolbwyntio ar gadw cyswllt a hefyd defnyddio'r dulliau i ymgysylltu â gwledydd eraill nad ydynt yn rhan o'r UE. Roedd pedair gwlad y DU yn gweithio i ddatblygu protocol ar gadw gwyliadwriaeth a byddai rhai newidiadau deddfwriaethol hefyd yn angenrheidiol.

Diolchodd JW i AJ am y diweddariad a dywedodd y byddai'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa ar ôl 1 Ionawr 2021, yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

**Nododd** y Bwrdd y diweddariad a chymerodd **sicrwydd** o'r trefniadau a roddwyd ar waith cyn 31 Rhagfyr 2020.

**PHW 205/2020 Eitemau i'w cymeradwyo**

**PHW 205.1/2020 Cofnodion a Chofnod o'r Camau Gweithredu o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26.11.20**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**Nododd** y Bwrdd y Cofnod o'r Camau Gweithredu, a **chymeradwywyd** y penderfyniad i gau'r camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.

**Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd**

Wrth gau'r cyfarfod, myfyriodd JW ar natur sobreiddiol y trafodaethau; roedd hyn yn cyfleu'r sefyllfa ddifrifol sy'n wynebu'r Wlad. Ar ran y Bwrdd, estynnodd ei diolch twymgalon i'r holl staff, y mae eu hymrwymiad a'u hymdeimlad o bwrpas wedi bod yn rhagorol drwy gydol y flwyddyn. Mawr yw dyled pobl Cymru iddynt oll am eu parodrwydd i addasu i ofynion y newidiadau o ran COVID-19 ac i gadw ffocws yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn.

Dymunodd JW Nadolig diogel i bawb, gan obeithio y bydd cyfnodau gwell i ddod yn 2021.

Mae **cyfarfod nesaf** y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau 28 Ionawr 2021.